Cynghorwyr yn croesawu Radio One i'r Faenol

Digwyddiad sy'n ein hatgoffa fod Gwynedd yn le da i fyw a gweithio

Mae'r newyddion fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus yn denu Big Weekend Radio 1 i'r Faenol ger Bangor wedi ei groesawu gan gynghorwyr lleol Plaid Cymru.

"Mae'n wych y bydd pobol ifanc (a'r rhai sydd ddim mor ifanc!) yn cael cyfle i fwynhau digwyddiad fel hwn ar stepen y drws," meddai'r Cynghorydd Sian Gwenllian, sy'n cynrychioli'r pentref agosaf, Y Felinheli.

"Mae'n debyg y bydd y mwyafrif o'r 40,000 o dicedi ar gael am ddim ac yn cael eu rhoi i bobol leol.

"Mae hwn yn lawer mwy na darllediad byw fydd yn cael ei glywed ar draws y byd - mae hefyd yn ddigwyddiad gyda llu o weithgareddau ymylol ac mae modd i ni roi blas Cymraeg yr ardal arno a gobeithio y bydd bandiau Cymraeg yn cael lle teilwng hefyd.

"Rwy'n siwr bydd Cyngor Gwynedd yn manteisio'n llawn ar y cyfle i son am gyfleon gwaith i bobol ac i atgoffa pawb ohonom lle mor dda ydy Cymru i fyw a gweithio."

Hwb i'r economi

"Bydd hwn yn hwb economaidd sylweddol i'r ardal ar gychwyn y tymor ymwelwyr ac yn gyfle i roi gwybod i bobol ar draws Prydain a thu hwnt am Wynedd ac Eryri," meddai Cynghorydd Plaid John Wyn Williams - mae ei ward yn cynnwys stad y Faenol.

"Er enghraifft, rydym yn deall y bydd hyd at 200 o staff Radio 1 yn ymweld a'r ardal yn rheolaidd dros y misoedd nesaf. Fydd pob un angen llety a bwyd.

"Mae manteision eraill - bydd dwsiniau o newyddiadurwyr o bob rhan o'r byd yn sgrifennu am yr ardal wrth i rai o ser mwyaf y byd pop rhyngwladol gyrraedd yma. Bydd cyfleon i bobol leol weithio yn paratoi'r safle ac ar yr ochr arlwyo a bydd cyfle am brofiad gwaith i bobol ifanc lleol sydd am weithio yn y cyfryngau.

Gwaith caled swyddogion Cyngor Gwynedd

"Mae angen llongyfarch swyddogion Cyngor Gwynedd, yn yr Uned Datblygu Economaidd yn benodol, am yr holl waith caled sydd wedi mynd ymlaen yn dawel bach i ddenu'r atyniad anferth yma i'r ardal," meddai Sian.

"Mae'r ardal yn ewnog am gynnal pob math o ddigwyddiadau - o Wyl Bryn Terfel ac Eisteddfod Genedlaethol 2005 i Farathon Eryri - ac mae'r heddlu, diffoddwyr tan a'r cyngor wedi hen arfer gweithio efo'i gilydd," meddai John Wyn Williams.

"Rydym yn hyderus y bydd Stad y Faenol yn lwyfan priodol ar gyfer y Big Weekend," meddai'r Cynghorydd Plaid Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd.

"Mae cynnal digwyddiad o'r math yn gyfle cyffrous i ddangos i'r byd beth sy'n gwneud Gwynedd yn le mor arbennig."

<u>Cofio am y gorffennol</u>

Dywedodd y Cynghorydd Sian Gwenllian : "Roedd y Faenol yn arfer bod yn nwylo perchnogion chwarel enfawr Dinorwig wnaeth ei ffortiwn ar gefnau chwarelwyr tlawd yr ardal.Adeiladwyd saith milltir o wal i gadw pobol leol alla. Mae'n anhygoel meddwl y bydd 40,000 ohonom yn cael mwynhau ein hunain yno ym mis Mai!"